WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Bryn Parry-Jones
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfforddd
Sir Benfro
SA61 1TP

**Cyfeirnod** 628A2013
**Dyddiad** 29 Tachwedd 2013
**Tudalennau** **1** o **2**

Annwyl Bryn

## Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 5 Awst 2013, rhoddais fy marn ar ba un a oedd Cyngor Sir Penfro (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.

Mae'n ofynnol i mi hefyd, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ar ba un a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

### Yn fy marn i, ac ar sail gwaith archwilio a wnaed hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adolygiad Gwelliannau 2012-2013* (yr Adolygiad) cyn 31 Hydref 2013;
- mae'r Adolygiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn egluro'r modd y mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- mae'r Adolygiad yn gwerthuso llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella, ac mae'n mynegi ei farn yn glir mewn modd teg a chytbwys;
- mae'r Adolygiad yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer dinasyddion sy'n dymuno rhoi adborth neu gyflwyno sylwadau ynghylch y cynnwys;
- mae'r Adolygiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau a fesurwyd gan ddangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol; ac

- mae'r Adolygiad yn cynnwys gwybodaeth am y ffyrdd y mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithredu ag eraill.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Nid wyf yn nodi unrhyw gynigion pellach ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddaf yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor wrth weithredu'r cynigion a bennwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

Byddaf yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n ategu prosesau rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad y Cyngor dros y misoedd nesaf ac yn adrodd arno, yn ogystal â chrynhoi fy ngwaith fy hun i gyd a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14, mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Cyngor y byddaf yn ei gyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir,

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi: Lesley Griffiths, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth